Rhoddir hysbysiad, yn unol ag Adran 29 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (fel y'i diwygiwyd) a Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014, rhwng Dydd Gwener 1 Rhagfyr 2023 a Dydd Gwener 22 Rhagfyr 2023 a rhwng Dydd Mawrth 2 Ionawr 2024 a Dydd Gwener 5 Ionawr 2024 rhwng yr oriau 9.30am a 12.45pm a 2.00pm i 4.15pm, y caiff unrhyw berson sydd â diddordeb, ar gais i'r Awdurdod, archwilio a gwneud copïau o Gyfrifon y Cyngor a enwir uchod am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023 a'r holl weithredoedd, contractau, biliau, talebau a derbynebau sy'n gysylltiedig â hwy.

Bydd y dogfennau hyn ar gael i'w harchwilio ar sail ddigidol yn y Swyddfeydd Cyffredinol, Steelworks Road, Glynebwy, Gwent NP23 8UW.

Er mwyn ein galluogi i wneud trefniadau priodol ar gyfer archwiliad, gofynnwn i bartïon â diddordeb wneud apwyntiad trwy e-bost i TreasuryManagement@blaenau-gwent.gov.uk neu drwy ysgrifennu at y Prif Swyddog - Adnoddau, Anvil Court, Church Street, Abertyleri, Gwent NP13 1DB.

Ar neu ar ôl 8 Ionawr 2024 am 10.00am, bydd yr Archwilydd Penodedig, Archwiliad Cymru, 1 Capital Quarter, Caerdydd, ar gais unrhyw etholwr llywodraeth leol ar gyfer yr ardal y mae'r Cyfrifon yn ymwneud â hi, yn rhoi i'r etholwr neu ei gynrychiolydd ef/hi gyfle i'w holi am y Cyfrifon a gwneud gwrthwynebiadau:

- Ar y sail bod unrhyw eitem o gyfrif yn groes i'r gyfraith, bod unrhyw berson wedi methu ag ystyried unrhyw swm y dylid fod wedi'i gynnwys ac nad yw'r methiant wedi'i gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru, neu fod colled wedi digwydd neu ddiffyg a achosir gan gamymddwyn bwriadol unrhyw berson; neu
- Mewn perthynas ag unrhyw fater sy'n dod i sylw Archwilydd Cyffredinol Cymru yn ystod yr archwiliad y gallai lunio adroddiad arno er budd y cyhoedd.

Ni chaniateir gwneud gwrthwynebiad o'r fath oni bai bod Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi derbyn rhybudd ysgrifenedig o'r gwrthwynebiad yn gyntaf a'r seiliau ar yr hyn y dylid ei wneud; copi o'r rhybudd hwnnw i'w anfon ar y pryd i'r Cyngor uchod.